# Digwyddiad Darparwr AGC

Rhagfyr 2022



# Agenda

**Diweddariadau AGC gan gynnwys:**

- Y Datganiad Blynyddol
- Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau
- Canllaw'r Comisiynydd Pobl Hŷn i hawliau pobl mewn cartrefi gofal
- Ein taflenni arolygu hawdd eu darllen

- Graddau fel adnodd ar gyfer gwella
- Egwyl fer

- Siaradwyr allanol: profiadau personol o raddau
- Sesiwn holi ac ateb
- Diwedd

# Cwmwl geiriau

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Beth yw eich barn am gyflwyno graddau?

# Graddio gwasanaethau

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

- a.37 o RISCA – Amserlen arfaethedig Graddau Arolygu
- Cam un – system o graddau ‘mud’ ar gyfer holl wasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref sy’n cael eu harolygu rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

# Graddio gwasanaethau

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

- Cam dau – cyhoeddi graddau ar gyfer yr holl wasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref sy’n cael eu harolygu arolygiad ym mis Ebrill 2024
- Rheoliadau a.37 – disgwylir y rhain ym mis Ebrill 2024

# Ymgynghoriad

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid Graddau**

- Eglurder diben
- Dylai disgrifyddion graddau fod yn glir ac yn syml i'w deall
- Cynnwys system o uchafswm o 4 lefel
- Ddim yn awyddus i gael gradd gyffredinol, ond cefnogwyd graddau lefel â thema
- Canlyniadau aanfwriadol posibl

# Ein dull gweithredu

- Dim gradd gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth
- Darperir graddau yn erbyn pob thema arolygu
- Diffinio’r disgrifyddion graddau ac ategu’r disgrifiad
- Cyhoeddi (ar ôl 2024)- yn ein hadroddiadau arolygu – hefyd yn debygol o gael eu cyhoeddi ar ein gwefan

# Disgrifyddion graddau

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

| | |
|---|---|
| **Rhagorol:** | Dyma wasanaeth neilltuol sy'n cefnogi pobl yn dda iawn ac yn rhagori ar ein disgwyliadau. |
| **Da:** | Dyma wasanaeth da sy'n cefnogi pobl yn dda ac yn bodloni ein disgwyliadau. |
| **Angen gwella:** | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl yn dda ac mae angen iddo wella er mwyn bodloni ein disgwyliadau. |
| **Gwael:** | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl yn ddiogel ac mae angen cymryd camau brys i ddiogelu pobl a gwella canlyniadau. |

# Disgrifyddion Graddau Lefel Thema

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Llesiant** | | | |
| Caiff y canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cyflawni'n gyson ac maent o ansawdd uchel.<br>Mae darparwyr gwasanaethau'n mynd ati i chwilio am opsiynau newydd i alluogi'r bobl i wella eu bywydau. Mae adborth am effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ei ddisgrifio fel gwasanaeth neilltuol a/neu wasanaeth sy'n arwain y sector. | Caiff canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cyflawni'n gyson. Caiff hawliau dynol y bobl eu bodloni'n gyson. Mae adborth am effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ei ddisgrifio fel gwasanaeth sy'n gyson dda. | Mae diffyg cysondeb yn y canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a/neu wrth fodloni eu hawliau dynol. Caiff barn gymysg ei rhannu am effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae angen mynd ati i'w wella. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol yn y canlyniadau i'r bobl. Nid yw hawliau dynol y bobl yn cael eu bodloni. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |

# Disgrifyddion Graddau Lefel Thema

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Gofal a Chymorth** | | | |
| Mae'r broses o ddarparu gofal a chymorth o ansawdd yn neilltuol a/neu'n arwain y sector. Cynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol.<br><br>Caiff gwersi eu dysgu/rhannu ag eraill i wella gwasanaethau.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn mynd ati i geisio cyfleoedd i ddysgu a rhannu arferion da ym mhob rhan o'r sector. | Mae'r broses o ddarparu gofal a chymorth o ansawdd yn gyson. Cynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff gwersi eu dysgu er mwyn gwella'r gwasanaeth.<br><br>Mae'r bobl yn cael eu diogelu. | Nid yw'r broses o ddarparu gofal a chymorth o ansawdd yn gyson. Ni chynllunnir gofal a chymorth bob amser drwy gynnwys y bobl nac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol yn gyson chwaith. Ni chaiff y gwersi a ddysgwyd o ymarfer eu gweithredu'n gyson er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae angen gwneud gwelliannau. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol yn y gofal a'r cymorth a ddarperir ac nid yw'r bobl yn cael canlyniadau cadarnhaol. Ni chynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl nac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>Ni chaiff fawr ddim o'r gwersi a ddysgwyd o ymarfer ei roi ar waith, os o gwbl, er mwyn gwella'r gwasanaeth.<br><br>Mae'r bobl yn wynebu risg. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |

# Disgrifyddion Graddau Lefel Thema

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | |
| Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn neilltuol a/neu'n arwain y sector.<br>Mae'r arweinyddiaeth arloesol, y gwaith llywodraethu a'r diwylliant y mae'n ei greu yn llywio ac yn gwella canlyniadau.<br>Grŵp o staff llawn cymhelliant, medrus a chadarn sy'n cael cymorth a hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn llywio canlyniadau o ansawdd uchel i'r bobl. | Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain yn dda yn gyson.<br>Mae'r arweinyddiaeth a'r gwaith llywodraethu yn creu diwylliant sy'n hyrwyddo'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Grŵp o staff medrus a chadarn sy'n cael cymorth a hyfforddiant cyson er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. | Mae diffyg cysondeb o ran pa mor dda y caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain.<br>Mae'r arweinyddiaeth a'r gwaith llywodraethu yn anghyson ac nid yw bob amser yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol.<br>Mae'r hyfforddiant a'r cymorth i'r staff yn anghyson ac mae hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni canlyniadau i'r bobl. Mae angen gwneud gwelliannau. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain. Caiff y gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol ei danseilio gan ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth.<br>Nid yw'r staff yn cael braidd dim cymorth a hyfforddiant, os o gwbl, sy'n effeithio ar ganlyniadau'r bobl. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |

# Disgrifyddion Graddau Lefel Thema

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd** | | | |
| Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Defnydd arloesol o ofod mewnol ac allanol. Mae mesurau rhagorol a/neu benodol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. | Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw. Mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. | Nid yw'r amgylchedd bob amser yn ddiogel nac yn cael ei gynnal a'i gadw'n rhesymol. Mae rhai mesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. Mae angen gwneud gwelliannau. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol o ran diogelwch a/neu'r gwaith o gynnal a chadw'r amgylchedd.  Nid oes digon o fesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |

# Herio Graddau & Ail-arolygu

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

- Herio Graddau

  https://www.arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau/adroddiadau-gwasanaethau-ac-arolygiadau

- Ail-arolygu

  Mae ein hymateb i arolygu'n parhau'n ddigyfnewid a byddwn yn parhau i ddilyn ein Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Sut ydyn ni'n Gweithredu Graddau?

# Siaradwr allanol

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Aneurin Brown

Unigolyn Cyfrifol a Cyfarwyddwr Cyfrifol

Cartref Gofal Hallmark


# Aneurin Brown

- Rheolwr
  Gyfarwyddwr
  Hallmark Care Homes

CELEBRATING 25 YEARS
HALLMARK CARE HOMES
1997-2022

# Hallmark Care Homes

- 19 cartref gofal yng Nghymru a Lloegr.
- 3 cartref newydd yn cael ei adeiladu.
- Ffurfiwyd y cwmni ym 1997 gan Avnish Goyal CBE.
- Gofal i'r henoed yn bennaf.



# Hallmark Care Homes

3 x ‘Outstanding’
10 x ‘Good’

---

6 x Cartref (Heb ei graddio)

# Ein Profiad Ni

- Profiad positive ar y cyfan ers cyflwyno graddau yn Lloegr.
- Graddau wedi gwella safonau ar y cyfan.
- Pan cyflwynwyd graddau fe effeithiwyd ein cartrefi yn Lloegr yn y misoedd cyntaf.
- Graddau positif yn rhywbeth i ymfalchio ynddynt ac yn rhywbeth i bawb dathlu a chymryd rhan.
- Graddau i bawb… nid yn unig i breswylwyr a'i teuluoedd.



hallmark
care homes

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**



# Ein Profiad Ni

- Mewn carterfi sydd wedi'i graddio yn 'Ardderchog' mae'r tîm yn deuddol o aros yn hirach o'r herwydd.
- Rheini sydd yn chwilio am swydd â llai o ddiddordeb mewn graddau.
- Rheolwr â mwy o diddordeb mewn gradd.
- Ein graddau 'Ardderchog' ni ddim yn gysylltiedig â'r adeiliadau nac oedran y cyfleusterau.
- Gwellianau yn cael ei cyflwyno yn gynt oherwydd graddau.



# Defnyddio graddfeydd i wella…

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

- Dim llai na gradd 'da' yn derbyniol.
- Fframwaith cydymffurfiaeth wedi'i osod yn unol â'r awdurdod rheoleiddio.
- Pob cartref wedi'i archwilio yn fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn derbyn 'gradd.'
- Pob archwiliad (audit) arall wedi'i osod yn unol a canlyniadau graddio.
- 'Outstanding Pathways' yn cynnig lefel arall i anelu.






hallmark
care homes

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Sut mae cwsmeriaid yn defnyddio graddau ?



# Sefyllfa Enghreifftiol

hallmark care homes

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

## Cartref A v Cartref B

- 2 x cartref gofal
- Proffil tebyg
- Cartrefi preswyl (dim nyrsio)
- Yr un pris
- Yr un maint
- Y ddau â argaeledd

**A**

Inspected and rated
Good
CareQuality Commission

**B**

Inspected and rated
Requires Improvement
CareQuality Commission

# Sefyllfa Enghreifftiol

**Galw**

- Ymweliadau â'r wefan – 50% yn uwch i gartref A yn erbyn Cartref B (ar ôl gweld gradd)

**Trosiad Gwerthiant**

- Cyfanswm ymholiadau - Gwelliant o 25% Cartref A yn erbyn Cartref B
- Ymholiad i ymweliad - Gwelliant o 12% Cartref A yn erbyn Cartref B

**Referrals**

- Argymhellion gan nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol a.y.b 30% yn uwch yng nghartref A

# Cartref B…. Nawr !

hallmark
care homes

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**



# Argymhellion

- Paratowch ar gyfer graddau yn gynnar !
- Sicrhewch fod y tim cyfan yn deall graddau a rhowch hyfforddiant.
- Ar gyfer graddau ‘Da’ neu ‘Rhagorol’ paratowch gynllun cynhaliaeth ar gyfer y thema.
- Dathlwch graddau ‘Da’ / ‘Rhagorol’. Rhowch ysgogiad a chydnybyddiaeth.



# Cwestiynau ?

www.linkedin.com/in/aneurinbrown/

aneurinbrown@hallmarkcarehomes.co.uk

@ANEURINBROWN



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Trafodaeth

- A yw graddau yn darparu canllaw clir i bobl sydd am ddefnyddio gwasanaeth?
- A yw’r disgrifyddion yn rhoi digon o wybodaeth am y radd?



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Arolwg barn

Ydych chi'n teimlo bod gennych chi well dealltwriaeth o graddau ar ôl mynychu'r sesiwn hon?